Cyfres Llanbedr | Gorffennaf, 1928 | Cyf. 28. Rhif 7.

Profwch bob peth: Rhyddid: Gwirionedd: Cariad. Deliwch yr hyn sydd dda

Yr Ymofynnydd.

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Y. Golygydd. | Y. Parch T. Oswald Williams

— Cynnwys. —

Ble ma nhw ?
Daniel Gloff.
Y Llyfr Gweddi.
Y Gymanfa Ganu.
Urdd y Benywod.
Y Llyfr Emynau.
Marwgofion.
Nodion yr Eglwysi.
Ton—"Belan."

Y Gwirionedd ach rhyddha chwi

Argraffwyd gan J. D. Lewis Gwasg Gomer Llandysul.

YR YMOFYNNYDD.

Pris 3c. y mis ; drwy y Post, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—Y Parch. T. Oswald Williams, M.A., Lampeter.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. Lewis, Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

BRON YN BAROD.

Y LLYFR EMYNAU NEWYDD—

PERLAU MOLIANT

(SOLFFA)

CASGLIAD O EMYNAU A THONAU AT WASANAETH EGLWYSI UNDODAIDD CYMRU.

Prisiau :—

Lledr Hanner Rhwym, 4/6. | Lledr Llawn Rhwym, 5/6.
Lledr Morocco ac India Paper, 7/-.

Derbynir archebion (*gyda blaendal*) oddiwrth Eglwysi a phersonau unigol yn awr. Anfoner at—

J. D. LEWIS, SWYDDFA'R 'YMOFYNNYDD,' LLANDYSUL.

CHANNING HOUSE SCHOOL

HIGHGATE, LONDON, N.6.

Public School for Girls.

For Particulars apply to THE HEAD MISTRESS.

T. E. Jones, & Co.

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers and Provender Millers, Merchants, Wholesale Grocers, etc.

Yr Ymofynnydd.

- - Cylchgrawn Misol - -
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.

CYFRES LLANBEDR. GORFFENNAF, 1928. CYF. XXVIII. RHIF 7.

Ble ma nhw?

(PAPUR DDARLLENWYD HWYR SUL, MEHEFIN 24).

YN ddiweddar traddododd Syr Arthur Keith y gwyddonydd enwog ddarlith a daflodd feddwl dyn o'r hen rigolau, ac yr oedd angen am hyn oherwydd nid da bod yn rhy sicr o ddim. Nid oedd dim newydd ynddi na ddywedwyd o'r blaen, ond maentumiodd fod *dyn* yn marw o farw o'r corff. Ysgrifennodd rhywun i Bapur Newydd fod 1,800,000,000 o bobl yn y byd ac fod un o bob trigain yn marw bob blwyddyn neu ryw 30 miliwn, tebig a phe buasai holl bobl Lloegr yn mynd. Dywed gwyddor fod dyn wedi bod ar y ddaear yma am hanner miliwn o flynyddoedd a'r cwestiwn yw o geisio dychmygu am y miliynau ar filiynau sydd wedi marw, Ble ma nhw? Y mae'r cwestiwn yn hen a diddorol. "Angeu yn ddiau yw testun hynaf llen. Llyfr y Meirw ydyw teitl y llyfr hynaf sydd ar gael," ac yn llenyddiaeth y Cymro y nodyn hwn yw'r nodyn cyntaf "Mor druan wyf, bu farw'r dewrion." Gwyddom fod rhyw ias oer yn dod dros y dewraf wrth son am farw neu golli ein hanwyliaid. Medr y pregethwr ar sail rhyw draddodiad neu awdurdod neu farddoniaeth y Beibl neu Emyn ddisgrifio gwlad y goron aur ar y "lan ddisglair draw." Awgrymir y medr roi cysur gobaith a ffydd ddall ond nid diddanwch argyhoeddiad na ffydd ddeallus. Ar bwys yr anwybod a'r petruso ar un llaw a'r sicrwydd dall ar y llaw arall diddorol a theg yw gofyn—Ble ma nhw? Nid lle heddiw mo Nefoedd nac Uffern, ond dylasem gofio wrth fynd heibio yr awgryma yr Esgob Barnes fod pobl wedi datblygu'n uwch na ni yn byw ar y planedau. Nid yw ond damcaniaeth. Ni chredaf y medrir rhoi ateb a foddlona arall. Digon i ddyn yw boddloni ei hun os medr. Sicr na fedr dyn roi ateb ei galon mewn geiriau i'r cwestiwn hwn. Y mae amryw atebion wedi eu cynnyg. Credid yn fore fod dyn yn goroesi fel rhyw gysgod pwl. Dyna a geir hwyrach pan sonir am y gwyllon yng Nghoed Celyddon yn Llen Cymru. Awgrymid hefyd fod dyn

wrth farw yn mynd ar ddifancoll ac y mae'r awgrym yn dal. Y mae yna ddeddf ym myd Natur nad a dim ar goll. Nid yw corff dyn ond torf nas gellir eu rhifo o atoms ond pan wasgerir y dorf, y mae'r dyn yn darfod, ond â'r unigolion—yr atoms—bob un i'w ffordd ei hun. Dyna yw angeu, y plismon yn gwasgaru y dorf. Credid gynt mai y dim lleiaf o fater ydoedd yr atom ond erbyn heddiw gwyddys mai rhyw damaid o drydan ydyw, ond beth yw trydan ni wyr neb a rhaid addef fod y gwyddonwyr wedi llwyddo i roi esboniad prydferth dros ben o'r atom. Nid y dim lleiaf o fater mohoni mwy ond rhyw ddim lleiaf o ganol o fater a'r electrons yn chwyrnellu o'i gylch. Er i chwi amgyffred hyn, cymerwch yr awgrym pe gosodid can mil o atoms ochr yn ochr na fuasent o drwch papur teneu, ac eto dywedir fod pobun o'r atoms fel y gyfundrefn heulog a'r bydoedd yn troi o gylch yr haul, neu yn ol awgrym rhywun fel eirinen aeddfed ac ugeiniau o wybed mân yn hedfan o'i chylch. Nid yw hynyna ond gyda llaw er dangos cyn belled y medr Gwyddor dreiddio.

Awgrym arall yw'r awgrym cyffredin ond odid fod enaid dyn yn goroesi'n bersonol ac awgrym Keith hwyrach fod dyn yn byw yn ei ddisgynyddion neu fod enaid dyn yn colli ei bersonoliaeth annibynnol ei hun ac yn ymgolli hwyrach yn Nuw—dychwelyd fel pe tae i'r gronfa fawr. Rhyw awgrym tebig geir gan George Eliot "The Choir Invisible"—dyn yn ymdoddi i afon o duedd foesol i fyw wedi marw "mewn meddyliau wedi eu gwneuthur yn well drwy ei bresenoldeb."

Y mae hawl gan bob un i'w farn ei hun. Ni ofynwn ni ond am farn onest. Hyd y medraf i weld try'r cwestiwn ar y berthynas rhwng meddwl dyn a'i gorff. Nid oes neb eto wedi medru 'i esbonio i foddlonrwydd ond y mae yna o leiaf dri awgrym,—

"*Yr olwg beiriannol*" a dderbynir ond odid gan Keith pan ddywed fod "yr ymennydd yn ysu tanwydd gan drawsnewid ynni yn deimlad, meddwl a chof." Nid yw pob meddwl felly ond cynnyrch rhyw gyfnewid peiriannol neu fferyllol yn yr ymennydd nes peri i Fartineau ofyn "Ba radd o'r gwresfesurydd sy'n gyfartal a phennill o 'Er Cof' Tennyson"? Gyda Huxley nid oedd meddwl ond yr ewyn a ddoi i fyny oherwydd fod yr ymennydd yn gweithio neu darth yn codi o wyneb yr ymennydd. "Fel y mae'r afu yn didoli bustl felly hefyd yr ymennydd feddwl." Nid yw athroniaeth yn gefn i'r esboniad hwn.

Awgrym arall yw fod y corff a'r meddwl yn bodoli ar wahan. Yn ol yr awgrym hwn y mae'r berthynas yn un o gyfochredd. Y mae'r rhes feddyliol a materol yn hollol annibynnol. Y maent

fel dau dren yn rhedeg ochr yn ochr ar ddau *bar o rails* cyfochrog ond heb yr un effaith o'r naill i'r llall. Y trydydd awgrym yw'r syniad o enaid, y gred fod meddwl unigol ymhob corff byw.

Y mae'n rhwydd gofyn gyda'r esboniad hwn os caniatawn fod dyn neu gi dyweder yn goroesi, beth am greadur llai fel y madfall. Pryd y mae enaid yn dod i'r corff ? Gan mai o'r Epa neu o deulu'r Epa y datblygodd dyn, ar ba adeg y datblygodd ddigon i gael enaid ? Nid yw'r cwestiynau hyn ond yn dangos nad yw dyn yn gwybod, a'i fod yn curo megis am agoriad i ddirgelion bywyd.

Gair mawr y gwyddonydd yw "*praw*" a "*thystiolaeth.*"

O ddarllain yr erthyglau gwelir na phwysir ar ddatguddiad. Ni cheisir ei brofi drwy adnodau. Nid yw ysbrydion i'r mwyafrif ond ymddangosiadau meddyliol tebig i delepathi ac amheuir tystiolaeth Ysbrydegaeth ond gan yr ychydig. Nid wyf yn sicr yn y byd fy hun fod y gair olaf wedi ei ddywedyd ar Ysbrydegaeth na breuddwydion ychwaith. Y mae'n werth ystyried ba fath ar dystiolaeth a dderbynir.

Ymchwil gwyddor yw am ffeithiau neu ddigwyddiadau mewn amser a lle—chwilio am *yr hyn sydd* y mae ac nid oes a fynno a'r hyn *sydd i fod.* Nid oes le i gred grefyddol. Gwrthodir pob tystiolaeth ond tystiolaeth ffeithiau a geir drwy'r synhwyrau fel y dywedir a thrwy hynny nid oes dystiolaeth fod personoliaeth yn goroesi. Y mae hyn yn ysgubol oherwydd y mae Meddyleg yn ymwneud a meddwl, teimlad neu ewyllys ond ni fedrir tystio am *realiti* yr un drwy welediad y synwyr yn unig.

Y mae bywyd dyn yn llawn o bosibiliadau a dyheadau a rhyw awgrym ynddo drwyddo draw fod ei gynllun yn fwy na fedr bywyd heddiw foddloni a'r unig ddadl neu reswm a dderbynir yw dibenyddiaeth (teleology). Ni rydd sicrwydd ond ceir ffydd resymol. Ni cheir hyd yn hyn o leiaf ffeithiau anwadadwy a ddeil braw gwyddor dros oroesi ac nid oes dim am dani ond dal yn dyn ar ffeithiau uwch yn ol ein tyb ni—profiad ysbrydol. Gyda llaw dylasem gofio am y Psychical Research Society ac y mae rhai o'r tystiolaethau yn anhygoel os nad yn anwadadwy.

Y mae'n werth cofio mai yr hyn a geisir brofi yw goroesi o Bersonoliaeth. Nid rhyw anfarwoldeb corfforedig—dylanwad neu effaith meddwl, awydd a gweithred dyn yn bersonol ar ei gyd-ddynion. Nid bywyd tragwyddol mohono, oherwydd fe geir bywyd tragwyddol mewn byd o amser.

Gyda llaw deil yr Athro Jacks gyda'r Esgob Butler mai "tebygolrwydd ydyw arweinydd bywyd" ac yma y mae'r tebygolrwydd yn uchel iawn. Ni chred ef fod anfarwoldeb yn dreftadaeth (birthright) y medr neb hawlio. Rhyw wobr i'w hennill ydyw ac yn y Testament Newydd yr ym yn anfarwol cyn belled ag y deuwn yn feibion ac etifeddion i'r anfarwol Dduw. Sylfaena Jacks ei gred mewn anfarwoldeb ar ddwy gred arall. 1—Fod y cread yn fyw ; 2—ac fod bywyd y bydysawd yn mynegi trefn foesol.

Y mae'r Athro Jacks yn credu fod enaid gan y bydysawd ac os oes trefn foesol yma, yna ni ddefnyddir un enaid fel offeryn i gael rhywun perffeithiach ond fel diben (end) ynddo ei hun.

Cyn ceisio rhoi barn ar fy nghred bersonol i, y mae'n werth bod yn sicr beth a olyga'r gred arall.

Nid yw'r meddwl ond rhan o'r ymennydd ac nid oes oroesi.

Nid yn yr ystyr fod yr argraffu (y print) yn ochr faterol yr ysgrif hon, neu fod cynhyrfiadau yn yr awyr yn golygu cân ar y wireless. Yr ym yn ol gyda Laplace pan ddywedodd "Ysgubais y Nef a'm teliscop heb gael un ol o Dduw."

Yn ol Joad (yn yr Outline) nid oes Rydd Ewyllys (Free will) gyda'r gred hon. Y mae'r corff oherwydd ei fod yn faterol yn gweithio yn unol a deddfau anianyddol. Nid oes ddigwyddiad yn y corff na achosir gan ryw ddigwyddiad arall. Nid ym ond creaduriaid ein hamgylchedd—rhyw beirianwaith a'i allu symudol ynddo ei hun a'n hunig waith yw adweithio i symbyliadau na fedrwn reoli. Ni chredwn ddim oherwydd ei fod yn wir ond oherwydd fod ein hymennydd yn y cyflwr hwn neu arall.

Ni fynnaf i gredu mohynyna a soniai William James os nad wyf yn methu am yr "ewyllys i gredu." Nid oes gennyf mo'r ewyllys i gredu ond y mae gennyf "ewyllys i gredu" mewn anfarwoldeb. Ni olyga hyn fy mod yn creu tystiolaeth ond fod gennyf ewyllys "i gael ffydd dros ben rhyw fath ar dystiolaeth, tystiolaeth y synhwyrau er cael allan drwy braw a oes yna ddim bathau arall ar dystiolaeth."

Seilia Mellone ei gred mewn anfarwoldeb ar ddau dir.

Y mae yna ddau amcan yn gorwedd wrth wraidd yr awydd am fywyd arall : 1—er i serch a chariad personol barhau, a 2—daioni personol i dyfu, neu a'u rhoi yn un er i bob cynneddf ddatblygu i'w llawn dw. Dywed gwyddor fod rhywbeth sydd gennym

yn cael ei ddatblygu'n llawnach oherwydd ei fod yn ddefnyddiol ac yn ateb diben. Ar y tir hwn beth am y rhinweddau (qualities) meddyliol, moesol ac ysbrydol ?

Cymerer yr ysbrydol. Y mae iddynt eu defnydd a'u gwaith na sylweddolir hyd nes eu datblygu'n llawn ac y mae popeth ynom yn awgrymu na cheir mo'r cyfle yr awron. Os oes amcan i sylweddoli y galluoedd hyn, tybed na rydd Duw gyfle ?

Y mae George Birmingham am geisio ateb y cwestiwn Ble ma nhw drwy ddangos na fedrir rhoi ateb pendant i gwestiynnau felly. Y mae'n cymryd serch sy nghalon mab neu ferch ac y mae'n herio'r meddyg a'i gyllell i gael gafael ynddo neu'i brofi. Ni amheuwn mohono oherwydd na chawn afael ynddo, ond gwyddom ei fod yn *real* er na fedrwn mo'i esbonio. Y mae George Birmingham yn foddlon oherwydd na fedr o esbonio serch, teyrngarwch, ffydd mewn cyfaill, y duedd i aberthu hunan na bywyd. Hyd y gwn i nid oes neb a fedr ddweyd sut y daeth bywyd i'r byd yma, eto ni amheuwn mohono. Y mae bywyd a'i holl dystiolaethau wrth law ond ni fedr Keith na neb arall hyd yn hyn o leiaf esbonio bywyd na sut y daeth. Gynt ystyrid mater yn farw a heb symudiad a doir cwestiwn yn naturiol onid oedd Duw, Pwy a roes y gwth cyntaf ?

Hyd y medraf i weld y mae'r gred mewn anfarwoldeb yn gyffredin, ac er nad yw hyn yn reswm digonol dros ei gredu eto y mae cred a gobaith eneidiau mawr y byd yn werthfawr. Nid yw proffwydi Israel yn rhyw glir iawn ar y pwynt ond ym myd yr enaid a Duw, ni chredaf y gwyddai neb fwy na Iesu. Er na ddywedodd nemor ddim am y wlad, eto yr oedd ei holl ogwydd i'r cyfeiriad hwn, ac y mae awgrym Iesu ar y pen hwn yn cario dylanwad. Dyma hefyd farn eneidiau mawr y byd ymhob oes a gwlad fel y gellir dweyd fod dyn yn credu hyn fel wrth reddf. Fe alwai'r Parch. Rhondda Williams eiriau rhywun i gof gan ddywedyd fod rhywun wedi galw " anfarwoldeb yn broffwydoliaeth rheswm."

Dadl arall yw amgyffred moesol digonol o ddyn. Rhaid deall ein bod ni yn llinach Duw, wedi ein huno'n anwahanadwy wrth Fod moesol a deallus ac yng ngrym yr undeb yr ym yn fawr ac yn alluog i wneuthur pethau mawr ym myd y meddwl a'r ysbryd. Wrth astudio natur unigoliaeth daeth yr Athro Royce i'r casgliad fod yn rhaid inni gael bywyd arall er darganfod Pwy a Beth yr ydym. Hyd y gwyddom medr popeth gyrraedd ei lawn dw, ond pan fo'r cyfan yn pallu gyda dyn, y mae'r enaid yn disgleirio fwyfwy fel pe tae, ond ni fedrwn ddweyd fod yr enaid wedi cyrraedd ei lawn dw. Prifio mae gan y goreu i'r diwedd.

Rhaid cofio hefyd cael amgyffred moesol digonol o Dduw. Ni fedrwn gael ein gwahanu oddiwrtho. Nid yw dyheadau goreu dyn ond llais Duw ynddo. Nid yw gobeithion goreu calon dyn ond addewidion Duw i'w blentyn. Credaf y medr y galon gyrraedd yr hyn y mae'n abl i'w ddirnad. Y mae Duw yn fod moesol pur a chan ei fod ef yn dad inni, rhaid i ninnau ryw ddydd fod yn foesol bur.

O gymryd dyn a Duw felly, mawredd dyn a moesoldeb perffaith Duw credaf fod son am fynd ar ddifancoll yn chwerthinllyd.

Tybed fod Duw wedi plannu y galluoedd hyn ynom—galluoedd y deall, y galon a'r ysbryd, galluoedd na wyr gwyddor nemor ddim amdanynt a galluoedd sydd o'r un ansawdd a'r elfennau yng nghymeriad Duw ei hunan yn fenthyg am ychydig bach ac wedi inni eu datblygu ei fod yn eu cymryd yn eu hol eilwaith iddo ef ei hun. Tybed ei fod drwy broffwyd a gwr Duw, drwy ddylanwadau goreu byd yr ysbryd yn ceisio datblygu y dyheadau a'r gobeithion puraf ynom er ein siomi yn y diwedd. Ys dywedai John Fiske gan gyfeirio at ddyn,—

> "Tybed y gwnaethpwyd yr holl waith hyn am ddim. Tybed ei fod i gyd yn ddarfodedig, fel bwrlwm a dorrir neu weledigaeth a ddiflanna. A ydym i ystyried gwaith y Creawdwr fel eiddo plentyn yn codi tai o *flocks* er mwyn y pleser o'u taflu i lawr ?

Ys dywedai Dr. Townsend "Yr wyf i mor agored i hyderu yn fy hunan ymwybyddiaeth o Dduw fel yr amcan sy'n rheoli bywyd ag ydwyf yn fy marn am yr haul. Y mae fy ymwybyddiaeth foesol yn ffaith gan fy argyhoeddi i nad yw'r gwerth moesol (moral values) yn chwalu yn lwch a lludw. Oherwydd diogelu gwerth moesol, y mae gennyf hawl i gredu y diogelir gwerth personol. Y mae yr ymwybyddiaeth foesol yn hawlio Duw a goroesi o Hunan.

Gwelir felly fod y gred mewn anfarwoldeb yn hen ym mywyd y byd—yn cael ei dal ond odid gan y mwyafrif, ac er diogelu'r gred hon, y reddf hon ond odid ynghalon dyn y credid yn adgyfodiad y corff. Ni chredaf y boddlonir goreu enaid neb ond gan y gred, bum bron dywedyd gan y sicrwydd nad yw angeu ond drws i fyd arall, cyfle newydd yn hanes dyn. Hwyrach na fedrir mo'i brofi i foddloni gwyddor ond ys dywedai Pascal "y mae gan y galon resymau nas gwyr rheswm amdanynt."

Tybia ychydig o hyd fod yr enaid yn ail ymgnawdoli—rhyw dybio hwyrach na fedr yr enaid fyw heb gorff. Ni wn i.

Y mae'r broblem Ble ma nhw yn dywyll ar lawer adeg. Nid oes betruster yn fy meddwl fy hun. O feddwl am fy anwyliaid wedi blaenu, o feddwl am Iesu ei hun, o feddwl am eneidiau mawr y byd yn mynd ar ddifancoll y mae'r cyfan yn tywyllu a chollaf afael ar Dduw. Ys awgrymais eisoes y mae rhywbeth yn anfoesol i mi yn y dyb y medr Duw Cariad a Thad siomi gobeithion goreu'i blant. Ni fedraf i feddwl eu bod ymhell nac ar ddifancoll. Ni wn i ble. Nid yw waeth gennyf. Ble bynnag y maent, *y maent gyda Duw* ac yr wyf i yn foddlon.

Ni fedraf i mo'i esbonio na'i ddadrys ond rywsut teimlaf fod y bersonoliaeth yn parhau ac y caf innau—nid nefoedd nac uffern—nid diddymdra na pharhad fel diferyn o ddwr mewn afon ond fel myfi fy hun—y caiff yr *ego*—y bersonoliaeth fyw a datblygu pob cynneddf i'w llawn dw. Y mae'r ymdeimlad ynof, nad wyf ond dechreu a rhywbeth yn ddim amgen na sicrwydd ynof ys dywed yr hen gwpled mai

Hawdd fydd nabod hen wynebau
Wedi croesi niwl y glyn.

Dyna fy nghred. Ni fedraf i mo'i phrofi hwyrach i'ch boddloni chwi na gwyddor. Y mae gennyf gysur. Ni fedrwch chwithau na gwyddor mo'i amhrofi na pheri imi ollwng gafael arni, ac y mae *rhywbeth*—nid oes gennyf enw arno onis galwaf gyda Barrie yn *speck*—yn tystio ynof ac yn fy nerthu, ie, yn dywedyd yn nwfn fy enaid pan fyddo Duw yn esbonio bywyd, y byddaf i gydag Ef a chyda fy anwyliaid. Waeth ble ond gyda Duw.

Daniel Gloff.

ER na ddeuthum i gyffyrddiad agos iawn a Daniel Gloff, eto y mae gennyf gof da iawn o glir am dano ym mlynyddoedd olaf ei fywyd. Ei enw barddol oedd Daniel Gloff ; ei enw priodol oedd Daniel Williams. Galwodd ei hun yn Ddaniel Gloff am y rheswm ei fod yn gloff o un glun—effaith damwain, fel y deallaf. Yn Nrefach, pentref bychan gerllaw Llanwnnen, y trigiannai pan adwaenwn i ef—yn y trydydd ty ar y dde wrth fynd i mewn i'r pentref. Ai yno y treuliodd ei fywyd priodasol i gyd, ni wn. Mab ydoedd i un o'r enw David Williams, a drigiannai yn nhref Llanbedr, ac a adwaenid yn gyffredin wrth ei enw barddol—Dewi Farfog. Yr oedd Dewi, fel y'm hysbyswyd, yn ysgolhaig da iawn—da, o leiaf, o'i fesur a safon ei oes a'i ddos-

barth ; a medrai farddoni'n dra gwych. Ni chredaf imi weld ond ychydig o'i gynhyrchion. Yn wir, ychydig iawn o honynt sydd mewn bod bellach ; deallaf iddynt, yn rhywfodd, fynd i golli neu gael eu distrywio yn nyddiau olaf ei fywyd. Dibynnu a wnaf, felly, ar farn eraill am dano, yn eu plith ac yn bennaf y diweddar John Lewis o Ddowlais, a'i hadwaenai'n dda.

Yn ol ei farwgof yn "Yr Ymofynnydd" am Fawrth, 1861, ymddangosodd cryn dwysged o'i gynhyrchion yng *Ngwladgarwr* Aberdar, Mehefin 19eg, 1858. Dyry bywgraffiad arall (gweler "Yr Ymofynnydd" am Tachwedd, 1870) enghreifftiau o'i gyfansoddiadau—yn eu plith fedd-argraff iddo'i hun :

Dyma'r bedd lle gorweddaf—yn rhodio
Rhan adwedd ni byddaf ;
Darfu mwyn-ddydd, hirddydd haf,
Cudd hirnos cauodd arnaf.

Dyma ddau englyn arall a gyfansoddodd ac a ddanfonodd i gyfaill a oedd wedi ymfudo i Galifornia :

Da gennyf fod digonedd—o foddion
I'th feddiant, a mawredd ;
Glŷn yna mewn glân annedd,
Yn dy fan, nes mynd i fedd.

Yno, os huno mewn hedd—a darfod
Dy yrfa mewn mawredd,
Ei di i fyw, o dy fedd,
I gymod Tad di gamwedd.

Dywed ei fywgraffydd yr ystyriai Llew Llwyfo y ddau Englyn hyn y mwyaf llithrig ac ystwyth a ddarllenodd erioed.

Am ryw reswm neu arall, ni welodd yn dda roddi i'w fab gyffelyb addysg i'r eiddo'i hun. Ni fedrai Daniel ddarllen. Nid yw'n debig y medrai adnabod llythrennau'r wyddor. O ystyried hyn, perir inni synnu iddo fedru cynhyrchu dim barddoniaeth o unmath. Ac eto fe gynhyrchodd wmbredd o bobmath arno. Engraifft dda iawn o'i farddoniaeth a geir yn ei linellau er cof am "Dafydd yr Heliwr" tua dechreu'r flwyddyn 1875. Un o gymeriadau hynod cymdogaeth Llanwnnen adeg fy mebyd oedd ef, a'i enw priodol oedd Dafydd Rees Vaughan. O ba le y daeth, pwy ydoedd, ni fedrai neb roddi un cyfrif gyda sicrwydd ; brodor o Lanfihangel-geneu'r-glyn, yn ol a ddywedai ef. Daeth i'r gymdogaeth i wasanaethu fel ceidwad helwriaeth ar ystadoedd y Neuadd a'r Castell

a Llwynygroes ; ac yn y cyntaf o'r tri lle y trigiannai. Dyn o dymer sur, tawedog, trwsgl o ymadrodd pan lefarai o gwbl, ydoedd ; ofnid ef gan lawer yn enwedig gennym ni blant ; a phe'i troseddid, ni fyddai'n brin o weinyddu'r fflangell ei dafod ffraethlym : dyma'r fath ar ddyn oedd Dafydd yr Heliwr. Ac eto, dywedai'r sawl a'i hadwaenai oreu ei fod yn ddyn o galon dyner, ac o feddwl craffus a deallgar. Eithr nid peth hawdd oedd dod i gyffyrddiad agos iawn ag ef ; a chyn belled ag oedd a fynnom ni blant ag ef, arswydo rhagddo a chadw cyn belled oddiwrtho ag a fedrem a wnaem. Rhywfath ar feudwy ynghanol cymdeithas ydoedd. Dyma ddechreu cân y prydydd cloff iddo :

" Dyn yw dyn er tyfu'n llydan ;
Dyn yw'r dyn tylotaf allan ;
Dyn yw'r brenin goreu'i gyflwr ;
Dyn o rywle oedd yr Heliwr.

Mewn pennill arall dywed am dano :

" Dyn o anian onest, eirwir ;
Dyn a garai fod yn gywir ;
Er rhoi tafod drwstan weithiau,
Nyth aderyn byth ni dorrai."

Deuai'r Bardd Cloff i gyffyrddiad cyn agosed ag ef a neb ; a gwyddai ef, felly, pa fath ar ddyn ydoedd yn y gwraidd, tu ol i'r allanol, yn weddol gywir. Cyfeiriaf eto, at ddernyn arall o'i eiddo—ymddiddan rhwng " Yr aderyn a'r Prydydd," a welir yn " Yr Ymofynnydd " am Fai, 1872—nid yn gymaint ar gyfrif ei deilyngdod fel barddonaeth, ond ar gyfrif yr effaith a gafodd arnaf pan ddarllenais ef gyntaf. Yn fy anwybod plentynnaidd, credwn fod yr aderyn wedi cyfarch y Prydydd mewn gwirionedd ; a synnwn o dybied fod y fath beth yn bosibl. Dysgais y dernyn bach yn drwyadl ; ac y mae wedi glynu yn fy nghof hyd y dydd hwn. A pheth arall, ar ol imi ei ddarllen, ni thorrais nyth aderyn byth drachefn.

Gan na fedrai ysgrifennu, sut yn y byd, ebe rhywun, y medrai gyfansoddi. Yr oedd iddo gof da iawn o graffus ; ac wrth gyfansoddi, dibynnai'n llwyr ar y cof. Yna, ar ol gorffen cyfansoddi, ai at Ddewi Hefin, a gadwai ysgol yn Llanwnnen ; ac ysgrifennai fel yr adroddai'r awdur— linell ar ol llinell. A dyma beth hynod ynglyn ag ef : er na fedrai ddarllen, eto, rhaid oedd iddo gael dalen o bapur (gwnai papur gwyn y tro) o'i flaen tra adroddai'r dernyn wrth yr ysgrifennydd. Bum yn llygad-dyst o hyn llawer gwaith pan oeddwn yn yr ysgol. Yn debygol, galluogid ef i

ganoli ei feddwl yn fwy llwyr ar ei fater fel hyn. Pe wedi cael gwell addysg, sicr ydyw y buasai wedi cynhyrchu barddoniaeth o ansawdd uchelach nag a wnaeth. Awen heb ei chaboli oedd ei awen ef. Diau mai condemnio ei farddoniaeth fel barddoniaeth a wneid gan "feirdd newydd" ein dyddiau ni. Ond, o ran hynny, ai ni ffynna tuedd yng nghryn lawer o'r beirdd i gondemnio cynhyrchion ei gilydd? Yn enwedig, ai ni ffynna tuedd ymhlith y "beirdd newydd" i gondemnio'r hen feirdd? Iolo*, Ceiriog, Mynyddog, Daniel Ddu, ac yn y blaen: braidd y teilynga'r un o honynt yr enw bardd, ym marn y "bardd newydd." Gresyn na ellid troi'r fantol yn rhywfodd, a chael o honom farn yr hen feirdd am y "beirdd newydd"—Iolo, er enghraifft. Ymddengys y bodolai'r hyn a elwid yn "farddoniaeth newydd" yn amser Dr. Johnson. "Oni chydnabyddwch," ebe Mr. Boswell wrth Dr. Johnson un tro, "yr amlyga'r farddoniaeth newydd ddychymyg cryf yn ei hawdwyr"? "Efallai y gwna," ebe'r Hen Ddoethwr: "ond fe amlygwch chwithau ddychymyg cryf hefyd o dybied o honoch bod y farddoniaeth newydd yn farddoniaeth o gwbl." "Barddoniaeth!" ebe'r beirniad barddonol newydd: "'d oes dim rhith o farddoniaeth," ac yn y blaen. Yn ddiweddar iawn, darllenais erthygl feirniadol ar un o feirdd Dyffryn Grannell yn y 19eg ganrif a ystyrrid yn fardd o safon gymharol uchel—hyd y daeth y beirniad barddol newydd i'r maes. Ond—ymddengys nad oes gymaint a rhith o farddoniaeth yn un o'i gynhyrchion. Rhyfedd iawn fel y teflir y delwau i lawr o un i un—os y teflir i lawr o gwbl.

Ond, i ddychwelyd at y testun, ys dywedir. Dyn o daldra mwy na'r cyffredin oedd Daniel Gloff, nid pell (os dim) yn fyr o chwe troedfedd, lluniaidd ond teneu o gorff, mor union a'r saeth—hyd y diwedd. Tueddai ei farddoniaeth i fod, ar y cyfan, nid yn unig o natur ddigrifol, ond hefyd ac yn aml o natur oganus, duchanol, wawdlym hyd yn oed ar rai achlysuron. Perai hyn i bawb ofni ei droseddu; oblegid os troseddid ef, tebig iawn y cynlluniai bwt o bennill neu englyn a thipyn o fin arno, fel fflangell ar y troseddwr. Ceid ef yn ei hwyliau goreu mewn cwmni llawen ar ddydd ffair neu neithior neu "gwrw bach." Beth oedd "cwrw bach"? Un o sefydliadau'r hen amseroedd ydoedd. Pan fai teulu mewn cyfyngder o unmath, cynhelid "cwrw bach" ar noson benodedig, a gwahoddid cymdogion a chyfeillion i ddod yno i yfed o'r ddiod a ddarparesid ar gyfer yr amgylchiad. Yn y fel hyn cai'r teulu dipyn o help i ddod o'i anhawster. Fel y sylwais, un o sefydliadau'r hen amseroedd oedd hwn, ond y sydd wedi diflannu'n llwyr erbyn hyn. Diflanasant am y rheswm i'r achos o'u bodolaeth ddiflannu, sef, tlodi. Mewn tlodi dygn y cedwid y werin bryd hynny; ac nid syndod ydyw y ffynnai sefydliadau o'r fath hyn. Da oedd eu

* Credaf eich bod yn methu. Yn ol y critig, Iolo yw bardd mwyaf Cymru erbyn heddiw.

hamcan; ond drwg iawn oedd eu heffeithiau ar lawer. Y mae neithiorau, cwrw bach, a ffeiriau ymhlith y pethau a fu—neithiorau a chwrw bach yn hollol, ffeiriau ymron bod. Ni wyr y genhedlaeth ieuanc bresennol ddim am y ddau sefydliad cyntaf; ac ni fydd y genhedlaeth nesaf yn gwybod dim am y trydydd. Ar achlysuron o'r fath hyn yr oedd y Bardd Cloff yn ei afiaith eithaf. Ef oedd prif ddifyrrwr pob cwmni y digwyddai fod ynddo; ac fe'u difyrrai naill ai trwy adrodd ystoriau neu ddarnau o farddoniaeth, yr oll o natur ddifyr, a'r farddoniaeth fynychaf o'i awduriaeth ddifyfyr ef ei hun. Pe gallwn ddod o hyd i ddegwm o'r darnau a nyddodd ar achlysuron o'r fath hyn, gallwn ychwanegu'n fawr at fy nghasgliad o'i gynhyrchion. Ond tebig iawn na ychwanegent fawr, os dim, at ei glod fel bardd.

O thybiwch, Mr. Gol., fod y llith cisoes yn ddigon hir, cymrwch eich siswrn yn eich llaw, a thorrwch y ddalen hyd y llinell wag. Diau y medr siswrn golygydd wneud gorchwyl o'r fath hyn; oblegid rhyw erfyn hynod ydyw. Ond—o thybiwch fod y stori a ganlyn o un diddordeb, wel, dyma hi at eich gwasanaeth. Adroddwyd hi wrthyt gan John Evans, a oedd yn ei gwmni pan ddigwyddodd y peth. Y mae'r stori o werth yn unig am yr amlyga rwyddineb ei awen. Efallai, hefyd, y cyfyd gwr y llen i'r darllenydd gael cipolwg ar a fu.

Yr oedd Ceredigion ynghanol berw etholiad Seneddol. Ni chofiaf pa ffwyddyn ydoedd, nac ychwaith pwy oedd yr ymgeiswyr. Nid yw hyn o un pwys. Rhyddfrydwr i'r carn oedd Daniel, a nyddai ganeuon etholiad yn hollol ddi-drafferth. Un bore Sul, yr oedd Daniel, gyda John Lewis yn ei gwmni, yn mynd i'r cwrdd i Alltyblaca yn o ddig; ar y ffordd, galwodd yn y *Red Lion*, Llanwnnen, i gael ychydig o help i fynd i'r daith. Gwelodd bapur Toriaidd wythnosol ar y ford, gafaelodd ynddo, ac yn ddioedi cymrodd arno ddarllen swp o bennillion ffafriol i'r Ymgeisydd Rhyddfrydig. Nid oedd hyn yn boddio'r tafarnwr, a ffafrai'r ymgeisydd Toriaidd. Ar ol gorffen darllen, dywedodd wrth ei gyfaill, "Dere i ni gael mynd, ne fe aiff yn rhy ddiweddar;" ac i ffwrdd yr aed. Ar y ffordd yn ol, rhaid oedd galw yn y *Red Lion*; a chyn gynted ag yr aethant i mewn, trodd y tafarnwr atynt gan eu cyfarch: "Dyma'r peth hynotaf a ddigwyddodd erioed. Rym ni wedi bod yn chwilio'r pennillion a ddarllensoch gynneu er pan aethoch o ma, a ryn ni heb eu cael eto." Sut y medrent eu cael. Nid oedd yno gymaint a gair o bennill o ddechreu tan ddiwedd y papur.

D.E.

Y Llyfr Gweddi.

BETH bynnag ein cred na'n henwad y mae rhyw gornel gynnes yn ein calon i hen Lyfr Gweddi'r Eglwys neu dyna fy marn i, ac y mae gwrthod y Llyfr Gweddi gan Senedd y wlad wedi ei gadarnhau gan Senedd yr Eglwys, o ddiddordeb cyffredin. Ni ddywedaf i ei fod hanner cyn bwysiced ag y myn rhai gredu ei fod. Hwyrach fy mod yn methu ond rywsut cwestiwn preifat yr eglwys ydoedd i mi a thrueni fod un enwad dan orfod ymgrymu yn y llwch gan wneuthur llyfr defosiwn yn asgwrn cynnen a throi'r cyfan yn gyff gwawd. Nid fy amcan yw pasio barn ond ceisio rhoi hanes y Llyfr Gweddi.

Rhaid mynd yn ol rai canrifoedd oherwydd fe'i hysgrifennwyd i ddechreu yn yr unfed ganrif ar bymtheg, cyn i Gopernicus na Galileo awgrymu y wybodaeth newydd a chyn i Newton ddarganfod Deddf Disgyrchiant. Cyhoeddwyd ein llyfr ni yn y flwyddyn 1662, bum mlynedd ar hugain cyn cyhoeddi o Newton ei *Brincipia*. Ni ddywedir hynyna ond er dangos fod y llyfr wedi ei ysgrifennu cyn dechreu o Wyddor i gamu'n fras. Fe wyr y mwyafrif mai'r iaith Lladin oedd iaith crefydd a thua chanol yr unfed ganrif ar bymtheg fe osodwyd y Litani a Threfn y Cymundeb—yn Saesneg ynghanol y gwasanaethau Lladin. Araf iawn y symudid ac yn 1536 y gorchymynnwyd darllain pennod o Feibl Coverdale yn Saesneg yng ngwasanaethau'r hwyr, a dylasem anrhydeddu enw Cranmer am ei waith ynglyn a'r Llyfr Gweddi.

Yn 1549 cyhoeddwyd y Llyfr Gweddi Cyntaf, ond cyn diwedd y flwyddyn daeth gwrthryfel, ac ys dywed yr Athro Dearm "Calfiniaeth ac nid Protestaniaeth sy'n ddieithr i'r Llyfr Gweddi." Newidiodd gwŷr Northumberland yn y cyfamser lawer o'r Llyfr Gweddi yng nghyfeiriad Calfiniaeth a chyhoeddwyd yr Ail Lyfr Gweddi yn 1552, a dyna geisir heddiw, ceisio dwyn yn ol wasanaeth Cymun y Llyfr Gweddi Cyntaf a dorrwyd allan gan Cranmer. Wedi merthyru Cranmer, Latimer a Ridley dan Mari daeth Elizabeth i'r Orsedd ac yn 1559 cyhoeddwyd y Trydydd Llyfr Gweddi a bwnglerwaith yw'r gwasanaeth Cymun ynddo.

Yn amser Iago'r Cyntaf ychwanegwyd ychydig weddiau. Yn 1611 y cyhoeddwyd y cyfieithiad awdurdodedig o'r Beibl ac ni fedrai'r Llyfr Gweddi beidio a theimlo'r dylanwad. Wedi hyn daeth y Werin lywodraeth a phan alwyd y brenin yn ei ol o'i grwydriadau cyhoeddodd yr eglwys a'r Senedd y Llyfr Gweddi presennol.

Yr unig wahaniaeth rhwng y Llyfr Newydd fel y gellir galw y llyfr a wrthodwyd yn y Senedd pwy ddydd yw ei fod yn caniatau defnyddio'r ychwanegiadau neu beidio gan ddwyn rhaniad i wasanaeth yr Eglwys. Myn rhai fod ynddo ogwydd cryf at Babyddiaeth a sicr fod Eglwys Rhufain yn cnnill tir yn ein gwlad ond ni chredaf i fod deddf gwlad na gwrthod cyfnewid y Llyfr Gweddi yn un atalfa i'r neb a fyn blygu i awdurdod yn hytrach nag i'w reswm.

Yn y Llyfr Gweddi Newydd hefyd y mae tair credo fawr yr Eglwys ac nid anniddorol fydd tallu cipdrem frysiog er gweld pryd y'u lluniwyd Credo'r Apostolion, Credo Nicea a Chredo Athanasius.

Fe'n harweinir ar unwaith ganddynt yn ol i'r bedwaredd ganrif pan alwodd yr Ymerawdwr Cystenyn Esgobion yr Eglwys at ei gilydd i Nicea gerllaw Caer Cystenyn yn y flwyddyn 325, er penderfynu rhai o gwestiynau dyrys y ffydd.

Y Credo fwyaf adnabyddus ydyw Credo'r Apostolion a sicr fod yna rywrai digon syml i gredu ei llunio gan Bwyllgor o'r Apostolion bore, ond addefir heb unrhyw amheuaeth heddiw nad a ymhellach yn ol na'r bumed ganrif. Nid yw ddim amgen na ffordd rwydd a syml o gofio rhai o brif erthyglau ffydd yr Eglwys a hithau yn brwydro yn erbyn Paganiaeth.

Yr hynaf o'r credoau yw Credo Nicea ac fe'i lluniwyd oherwydd yr anghydfod yn y bedwaredd ganrif rhwng Arius ac Athanasius. Galwyd Cyngor Nicea gan Gystenyn fel yr awgrymwyd i benderfynu'r mater a lluniwyd y Credo a rannodd Eglwys Groeg oddiwrth Eglwys Rhufain.

Dywedir fod dros dri chant o Esgobion yn Nicea a gwelir felly nad oedd Esgobion yn brin yr adeg homo beth bynnag. Y mae'r gredo hon yn ddiddorol i ni o leiaf am mai yma y trechwyd Arius a gŵyr rhai ohonom rywbeth am Ariaeth.

Nid yw Credo Athanasius ddim amgen ond odid na Chredo Nicea wedi ei hymelaethu, hynny yw Credo Nicea gyda mwy o fanylu ar y gwahanol bwyntiau, a sicr fod galw am Undeb yn y bedwaredd ganrif ond y mae'n od, y mae'n dragic onibae fod y peth mor chwerthinllyd ganiatau o'r Eglwys yn yr ugeinfed ganrif roi'r Credo hon yn y Llyfr Gweddi yn ei chrynswth, yn arbennig fod galw ar gynifer o bersoniaid i ddywedyd yn enw Athanasius ac nid yn enw Crist cofier,—

"Pwy bynnag a fynno fod yn gadwedig: o flaen dim rhaid iddo gynnal y ffydd Gatholig. Yr hon Ffydd, onis ceidw pob dyn yn gyfan ac yn ddihalog: diameu y *collir ef yn dragywydd.*"

Ni wn i mo ystyr y frawddeg glo yna. Ni chredaf y gwyr neb arall ychwaith. Hwyrach y collir yr hwn na cheidw mohoni i'r Eglwys, ond y mae hynny yn beth tra gwahanol a dywedyd y'i collir i Dduw. Y mae hynyna yn *libel* ar enw *Tad* i mi. Hwyrfrydig iawn a fu'r eglwys ei hun ar y cwestiwn oherwydd ni dderbyniwyd mohoni fel Credo Athanasius awdurdodol am o leiaf bedwar can mlynedd wedi marw o'r Esgob a roes ei enw iddi. Y mae'n ddiddorol cofio na wyddai y rhai a luniodd y Credoau na'r Llyfr Gweddi ddim am Feirniadaeth Feiblaidd na Datblygiad na phroblem gymdeithasol. Nid yw'r Credoau felly o reswm yn ymwneud dim a'r problemau hyn. Y maent yn *out-of-date.* Y mae eisiau eu diwygio hwy a'r Llyfr Gweddi ond nid i gyfeiriad Paganiaeth yr oesoedd bore. Ond eu diwygio fel y byddo'r Eglwys yn cadw *in step* a gwyddor ac angen yr oes fel y medr nid yn nhermau"r canrifoedd bore ond yn nhermau ac iaith profiad heddiw gyfieithu Iesu i fywyd dynoliaeth.

Y Gymanfa Ganu.

FEL pob cerddor euthum innau i'r Gymanfa Ganu yn Aberaeron, ac am y tro cyntaf cefais "docyn." Yr oeddwn fel plentyn yn gafael yn dyn ynddo ond y drwg am dani fe'i collais ac nid oedd dim am dani eleni eto ond gwrando. Y mae'r Sais y dyddiau hyn yn caru son am Gommunity Singing ond pe doi i Aberaeron cai glywed *Community Singing.* —pobl yr "Ysmotyn Du" yn canu—pobl o bob eglwys ynghyd a *reserves* o Gefn Coed a Gellionnen a'r capel enfawr yn dal rhyw ddeuddeg cant yn llawer rhy fach a channoedd yn methu dod i mewn. Ni wn i am ddim yn perthyn i'r enwad ar wahan i'r Gymanfa Ganu lle y danghoswn sel a brwdfrydedd. Nid wyf yn eithrio'r ysgol gân a dywedir yn ddistaw fod chware Drama neu rhywbeth wedi lladd yr Ysgol Gân ym Mhantydefaid eleni. Nid yw'n wir gobeithio. Ni ddylasai fod beth bynnag.

Yr oedd yn ddiwrnod teg o Fehefin ynghanol tywydd gwlyb, a phe bawn yn ofergoelus buaswn yn awgrymu fod y Nef yn gwenu arnom. Erbyn hanner awr wedi deg nid oedd sedd wag a mor o wynebau yn disgwyl. Nid oedd ond tri eiddilyn yn y Cor Mawr,

a'r *hen frigade* heb fod yno. Drwg gennyf weld lle y Parchn. L. Williams a David Evans yn wag a *drwm* y Parch. Arthur Thomas wedi peidio am y tro yn y Cor.

O glywed y plant yn canu, hedai'r meddwl ymhell ac agos. Arferai'r Hybarch John Davies ddweyd ei fod yn cofio'r Gymanfa Gyntaf a John Lloyd, Ysw., Pantywilco yn arwain. Holwn i mi fy hun pa mor bell y cerddasom? Arweinid ni gan y Dr. Hopkin Evans ac yn ddiddorol yr oeddem wedi cerdded ymhell oddiwrth yr hen gerddor didwyll o Bantywilco. Tybed fod y canu hefyd gymaint ar y blaen. Ni wn, ond gwn y dywedid inni gael y Gymanfa oreu erioed. Nid amheuaf a chredaf hynny, ond y drwg amdani yr wyf wedi credu felly lawer gwaith o'r blaen. Lawer tro yn ystod y dydd doi'r un cwestiwn ataf Beth yw Canu? Ni fedrwn i mo'i ateb ond fe doi atebion imi o'r dyddiau gynt,- "tafod gysegredig Duw; "miwsig angelion"; "cragen ag ymyl goch yn murmur am y mor tragwyddol"; "seiniau gwyllt wedi eu gwareiddio i amser a thôn"; "proffwydoliaeth o'r hyn yw bywyd i fod"; "enfys addewid wedi'i gyticithu fel y medrwn ei glywed yn hytrach na'i weld"; Yn atgof yr atebion yr oeddwn ar waethaf colli nhoeyn yn barod i ddweyd gyda rhywun gynt "Yr hwn ni char Dduw, ni char fiwsig."

Daeth can y plant a mi yn fy ol a chredaf fod adrodd yr emynau fel y'u hadroddid yn Aberaeron yn rhyw fath ar *grace notes* yn y gân, ac yr oedd geiriau syml a phwrpasol y llywydd Mrs. Conwil Evans yn mynd adref i galon y gwrandawyr.

Ni fedraf i farnu'r canu ond yr oedd rhyw hwyl yma na theimlir ond yn anaml a chredaf mai doeth y gwnaeth y Pwyllgor ofyn i'r Arweinydd o bydd yr Eglwysi yn cadarnhau am ddyfod blwyddyn nesaf eto. Ni chredaf y medrir cael ei well yng Nghymru heddiw. Yr oedd y Chorus "Rhosyn Saron" o waith yr Arweinydd yn galed yn galetach hwyrach oherwydd difaterwch gyda'r Ysgol Gan ond yr oedd yn brydferth ac yn werth yr ymdrech ac yn galondid i Arweinydd y Rehearsal Mr. L. Terwyn Davies, tra yr oedd "The Heavens are telling" fel swn tonnau Iwerydd yn torri ar y traeth.

Yr oedd y tonau cynulleidfaol a mynd arnynt a da oedd gan lawer am *gompliment* yr Arweinydd i Mr. Hefin Williams yr unig gyfansoddwr tôn gan yr enwad yng Ngheredigion ar hyn o bryd, am ei donau. Daeth y Parch. D. G. Rees a'i cwyllyswyr da o Drebanos i Aberaeron fel arfer a diolch caredig iddo am ddod oedd ei roi yn Llywydd ac yr oedd ysbryd yr hen Sir lond ei galon er ei fod wedi'n gadael ers tro hir bellach. Torrwyd ar gyfarfod

y prynhawn gan unawd Mrs. Evans, Llandysul "The Dreams of Paradise" ac yr oeddem yn foddlon wedi ei chlywed yn canu a hefyd manteisiodd Tyssul Davies, Ysw., Llywydd y Gymdeithas, ar y cyfle o'i alw i siarad yn ddirybudd i draddodi'i neges—Cronfa y Tair Mil—a gwnaeth hynny gyda hwyl ac argyhoeddiad heb dorri ar y naws hyfryd oedd yn y cwrdd. Fe'i gwnaeth fel "Tyssul" ei hun.

Erbyn Cwrdd yr Hwyr cyrhaeddodd y llanw ei uchelfan a llefarodd J. R. Evans, Ysw., Anchor House brofiad a dymuniad ei galon ac yr oedd ei neges yn *sincere*. Canwyd y Chorus a'r Anthem, a'r dorf yn mynnu *encore* i'r ddwy er caleted oeddent. Rhoes Mr. Clements ddetholiad ar yr organ yn brydferth dros ben a thalwyd y diolchiadau arferol gan Mr. J. R. Jones, Y.H., Garthowen a Mr. Llewelyn, Brohedyn, Castellnewydd Emlyn.

Mwynheais i fy hun o'r dechreu i'r diwedd yn y wledd o ganu ac yr oedd yn—bum bron dywedyd yn *iechyduriaeth* ond wedi awgrym y Dr. Hopkin Evans gwell dywedyd *iachawduriaeth*. Ni chredaf ei fod mor iach yn y ffydd ym myd iaith ac ydyw ym myd canu. Ni charaf mo'r gair *iachawduriaeth*. Y mae'n sawru o ddiwinyddiaeth annynol Geneva a gwell ydyw glynu wrth yr hen air ac y mae bendith Syr John Morris Jones arno—glynu wrth *iechydwriaeth*—the moral hygiene of the soul. Beth bynnag am hyn, yr oedd yn iechyd i ben a chalon dyn gael bod yn Aberaeron ar ddydd yr wyl.

Urdd y Benywod.

Llywydd Newydd yr Urdd.

Gorfoledda pawb gyda'r pwyllgor o ddewis ohono Mrs. Sydney Martineau yn llywydd a hithau wedi cydsynio a'r cais.

Cynhygiadau Kellog.

Y mae'r cynhygiadau hyn wedi deillio o'r Amerig ac oddiwrth yr Ysgrifennydd Rhyfel yno a golygant fel y gwyr pawb ond odid ymwrthod a rhyfel fel offeryn polisi cenedlaethol gan gadw yr hawl i'w ddefnyddio fel arf ryngwladwriaethol. Dylasid astudio'r cynhygiad yn onest gan bob un a gar heddwch. Nid digon yw datgan ein cydsyniad a'r ddelfryd "Dim rhyfel mwy." Rhaid

ceisio deall y problemau a'r anhawsterau a raid wynebu, o leiaf ceisio gweld fod yna broblemau ac anhawsterau'n bod a deall hefyd yr agwedd o'r cwestiwn sy'n ymgynnyg ei hun i wledydd ereill. Y mae'n anghenrheidiol astudio'r cwestiynau er gwerthfawrogi a gais y Cynhygiadau hyn wneuthur a da o beth a fuasai pe gallasai gwahanol ganghennau'r Urdd eu hastudio a'u hystyried yn ystod y gaeaf.

CYFYNGDER YN Y RHONDDA.

Ar bwys yr apel a wnawd o blaid cyfyngder yn y Rhondda anfonodd llawer cangen o'r Urdd barseli i'r Rhondda er cynorthwyo benywod y glowyr. Dymuna Ysgrifennydd y gangen yng Nghapel Glanrhondda ddioleh o galon i bob un a wrandawodd ar yr apel. Gwerthfawrogid y dillad ac fe'u rhoddwyd i'r mwyaf eu hangen ar ran Urdd Benywod Glanrhondda.

Y Llyfr Emynau.

Y MAE y Llyfr Emynau newydd PERLAU MOLIANT (Solffa) ymron a bod yn barod. Gyrrer archebion ar unwaith oddiwrth eglwysi a phersonau unigol i J. D. Lewis, Swyddfa "YR YMOFYNNYDD, Llandysul.

Mae y prisiau fel y canlyn :—

Lledr Hanner Rhwym—4/6 yr un.
Lledr Llawn Rhwym—5/6 yr un.
Lledr Moroco ac India Paper—7/- yr un.

Ni anfonir Copi allan heb y blaendal.

Bydd yr Hen Nodiant yn barod cyn diwedd y flwyddyn.

Marwgofion.

Dydd Mercher, Mai 16eg, bu farw Thomas Davies, 34, Margaret Street, Trecynon, yn 70 oed. Priod ydoedd i Mrs. Davies, un o aelodau henaf yr Hen Dy Cwrdd. Dyn tawel, diymhongar ydoedd; yn weithiwr gonest, dilol, yn gymeriad y byddai pawb yn ei barchu. Claddwyd dydd Sadwrn, Mai 19eg, a chafodd angladd parchus. Gwasanaethwyd gan y Parch. E. R. Dennis. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Mrs. Davies yn ei gofid a'i hunigedd.

Dydd Mawrth, Mai 22ain, yn 43 oed, Mrs. Lizzie Evans, 41, Penallta Road, Ystrad Mynach, a merch Mrs. Mary Hughes, a'r diweddar John Hughes, Llundainfach, Talsarn, ar ol cystudd hir a chaled. Y Gwener canlynol claddwyd ei gweddillion ym mynwent Rhydygwin, lle y mae y tad ac un chwaer eisioes yn huno. Gwasanaethwyd gan y gweinidog, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. W. Lewis, Aberystwyth. Cydymdeimlir yn fawr iawn a'r fam, a'r unig chwaer sydd yn awr yn aros o'r hen deulu adnabyddus yma, a phob nerth gaffo'r fam i ddal ergydion celyd bywyd yn y modd yma. Nodded y Nef fyddo drosti hi, y teulu, a'r perthynasau i gyd.

Blin iawn gennym gofnodi marwolaeth sydyn y diweddar David Thomas, 20, Well Place, Cwmbach, dydd Sadwrn, Mehefin 2, yn 65 oed. Bu am dro yn Aberdar prynhawn Sadwrn, ond ni fu yn hir cyn dychwelyd oherwydd yr oedd yn achwyn ychydig boen. Bu'r cyfan mor annisgwyliadwy, ac mewn llai nag awr o amser ar ol dod i'r tŷ yr oedd wedi marw. Dyn llawn, hapus a gweithgar ydoedd, ac nid oedd neb yn fwy llawen nag ef yn y Gymanfa Ganu diwethaf yng Nghapel y Graig. Yr oedd yn ddarllenwr eiddgar o'r Ymofynnydd, yn ffyddlon i'r achos yng Nghwmbach a chysylltiadau y teulu yn mynd nol am flynyddoedd gyda'r achos Undodaidd. Claddwyd yn y fynwent gyhoeddus dydd Iau, Mehefin 7fed. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf a'r teulu yn eu gofid dwys a'u hiraeth. Gwasanaethwyd gan y Parchn. Miss Constance Harries, Highland Place; D. Myddfai Jones (M.C.) a E. R. Dennis.

Nodion yr Eglwysi.

The 37th Annual Meeting of the South-East Wales Unitarian Society was held at Westgrove Unitarian Church, Cardiff, on Monday, 7th May. Rev. E. R. Dennis, President in the Chair. A large number of representatives and friends from the affiliated Churches being present. The following officers were elected for the ensuing year—President: Miss S. George, Craig Isaf, Aberdare. Vice-President: Rev. H. H. C. Jones, B.A., (District Minister), 7, Colum Road, Cathays Park, Cardiff. Hon. Secretary: Mr. Geo. Payne, Nenhof, Upton Terrace, Penygraig. Hon. Treasurer: Mr. Gomer Ll. Thomas, Maescynnog, Merthyr Tydfil. Assist. Hon. Secretary: Rev. E. R. Dennis, 2, Alma Street, Trecynon, Aberdare. Executive Committee: Rev. W. J. Phillips, Nottage; Mrs. John Lewis,

Pontypridd ; Mrs. A. C. Fox, Cardiff ; Mr. Tal. Griffiths, Aberdare ; Mrs. S. Rogers, Swansea ; Mr. D. O. Evans, Merthyr Tydfil ; Mr. Lewis Edwards, Cefn Coed and the Rev. R. J. Hall, Swansea. Advisory Committee : Rev. W. J. Phillips, Rev. H. H. C. Jones and Mrs. John Lewis. Finance Committee : Mr. Gomer Ll. Thomas, J.P. ; Major R. D. Williams ; Mr. D. O. Evans ; Rev. W. J. Phillips ; Rev. E. R. Dennis and Mr. J. L. Rowlands. The following Resolution was carried unanimously—That this Association place on record its profound regret that the Council and Executive of Toc H have departed from the Non-Sectarian position of its original constitution by their exclusion of Unitarian Ministers from the office of padre, and that it expresses its appreciation of the action of the Rt. Hon. J. Ramsay Macdonald, P.C., M.P. in resigning his office as President in protest against this action. A Religious Service was held at 6.30 p.m. conducted by the Rev. Rudolf Davies, B.A., of Barton Street Unitarian Church Gloucester, supported by Mr. Cyril V. Lewis of the Presbyterian College, Carmarthen.

LLWYNRHYDOWEN.— Cafwyd gwledd ragorol o De yn y lle hwn nawn dydd Gwener, Mai 25. Yr oedd yr hin yn bopeth a allesid ei ddymuno a'r canlyniad oedd i lu mawr ddod ynghyd—mwy nag arfer fel y credwn. Rhoddwyd y Te gan Miss Anne Jones, Greenhill, Llanybther—un o ffyddloniaid yr achos yn y lle a merch i hen ffyddloniaid yr achos yn eu dydd, sef Daniel a Mary Jones, Penrhiwcoele—a Miss Anne Jones, Darrenfach—wyres i'r Daniel a Mary Jones uchod o ochr ei thad. Teimlwn yn ddiolchgar iawn i'r ddwy am baratoi mor helaeth ac am groesawu mor siriol. Yn yr hwyr cafwyd cyfarfod adloniadol y plant o dan lywyddiaeth Mr. Griffith Davies, Brynclettwr. Canodd Cor y Plant dair tôn o dan arweiniad Miss Anne Davies, Criborfawr. Yn ystod y cyfarfod cyflwynodd Mr. Simon Davies, Dewi Villa, arolygydd yr Ysgol Sul, wobrwyon ac anrhegion i'r plant am eu ffyddlondeb. Cafwyd prynhawn hapus iawn.

PANTYDEFAID.—Sul, Mai 27, cynhaliodd Ysgolion Sul y Graig, Llandysul ; Pantydefaid, Llwynrhydowen a Bwlchyfadfa eu Cymanfa Ysgolion yn y lle uchod nawn a hwyr. Yr oedd yr hin yn braf a phawb mewn hwyl. Daeth yr ysgolion ynghyd yn lled gryno ac yr oedd y capel yn orlawn. Y maes llafur i'r plant oedd hanes Abraham ac i'r rhai mewn oed Luc XII. Holwyd gan Mr. Ben James, Ysgolfeistr, Llanddewi Brefi, yr hwn a brofodd ei hun yn holwr medrus a chwaethus. Yr oedd yr ateb os dim yn well nag arfer—rhai o'r brodyr yn cadw'n bur effro. Yn yr hwyr pregethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins. Arweiniwyd y canu yn ystod y dydd gan Mr. J. L. Thomas, Ysgolfeistr, Pontshaen, a chwareuwyd yr organ gan Mrs. Evans, Argoed. Teimlwn yn wir ddiolchgar i Mr. James, Mr. Thomas a Mrs. Evans am wasanaethu mor ddeheuig. Yr oedd yn flin gan bawb am absenoldeb gweinidog y lle a'r dymuniad oedd ar iddo gael adferiad iechyd yn fuan. Cyn gorffen cafwyd ychydig eiriau gan Mr. Josiah R. Jones a Mr. Oran Lloyd-Jones, nai i'r diweddar Barch. Jenkin Lloyd-Jones, Chicago, yr hwn oedd ar ymweliad a'r ardal. Mae diolchgarwch yn ddyledus hefyd i'r chwiorydd ym Mhantydefaid am y lluniaeth blasus baratowyd i'r ymwelwyr.

Dr. James Brown.—Pan ddarfu i'r Parch. James Brown ymsefydlu gyntaf yn Haddington, cafodd roesaw gwresog yr holl gynulleidfa oddigerth un person; yr hwn a safai yn gyndyn yn ei erbyn. Ceisiodd ym mhob modd allai i ddwyn y Disenter unigol hwn i mewn i'r undeb teimlad oedd yn ffynnu drwy yr holl gynulleidfa fawr, ond methodd pob ymdrech o'i eiddo i gael cyfarfod wyneb yn wyneb ag ef. Un diwrnod, fodd bynag, digwyddodd gwrdd ag ef yn ddamweiniol ar yr heol. Estynodd

y Doctor ei law iddo a dywedodd, "Yr wyf yn deall eich bod yn wrthwynebol i mi ymsefydlu yn Haddington." "Yr ydwyf," ebr yntau. "Wel, os yw'r cwestiwn yn deg, mi garwn wybod am ba reswm yr ydych yn wrthwynebol i mi?" "Oblegid, syr, nad wyf yn ystyried eich bod yn meddu y cymwysderau angenrheidiol i lanw swydd mor bwysig." "Dyna'n gywir, syr, yw fy marn i fy hunan. Ond i beth y gwnewch chwi a minnau osod ein hopiniynnau yn erbyn eiddo yr holl gynulleidfa." Gwenodd y brawd, a seliwyd eu cyfeillgarwch am byth.

BELAN. (M.H.)

Doh A. DAN DAVIES, L.T.S.C., Alltyblaca.

:l,	l,	:l,	|d	:t,	l,	:se,	|l,	:t,	|d	:d	|m	:r	|d	:t,	|d		
:m,	m,	:f,	|l,	:se,	m,	:m,	|m,	:se,	|l,	:l,	|d	:t,	|l,	:s,	|s,		
:d	d	:d	|f.m	:r	d.t,	:r	|d	:r	|m	:fe	|s	:f	f.m	:r.f	|m		
:l,	l,	:f,	|r,	:m,	m,	:m,	|l,	:m,	|l,	:r,	|s,	:s,	s,	:s,	|d		

:m	f	:m	|r	:d	d	:m	|r	:f	|m	:l	|s	:d.r	|m	:r	|d		
:d	r	:d	|d.t,	:l,	l,	:d	|t,	:r	d	:d	|d	:d	d	:t,	|d		
:s	s	:s	|s.f	:m	fe	:fe	|s	:s	s	:f	|s	:fe	s	:f	|m		
:d	d.t,	:d	|s,	:l,	r,	:r,	|s,	:l,.t,	|d	:f	|m	:l,	s,	:s,	|d		

Gweddi'r Arglwydd.

EIN Tad yr hwn sydd yn y nef!
Dy enw di, sanctaiddier ef;
A doed yn awr dy deyrnas di
I lanw ein calonnau ni.

A gwneler dy ewyllys, Iôr,
Fel yn y nef, ar dir a môr;
A boed ein byw yn weddi i ti—
O Dad! o'th gariad cynnal ni.

O galon boed in' faddeu brawd
A fo'n ein dyled ar ei rawd;
Na cheisiwn dy faddeuant di
Ond fel bo'r ysbryd ynom ni.

I brofedigaeth, Dad, na'n dwg,
A gwared ni o afael drwg;
Dy eiddo di fo'r deyrnas wen
A phob gogoniant, byth, Amen.

T. O. WILLIAMS, M.A.

J. D. Lewis, Argraffwyr, Gwasg Gomer, Llandysul.

Crown 8vo. Cloth 2/- net, Stiff Covers, 1/6 net.

THE AUTHOR OF

NEARER, MY GOD, TO THEE

(SARAH FLOWER ADAMS)

By H. W. STEPHENSON, M.A.

The illustrations include a reproduction in facsimile of the original M.S. of the hymn, "Nearer, my God, to Thee."

This Hymn, which first appeared in the Hymn Book of the South Place Unitarian Chapel, Finsbury, E.C., is more widely known than any other by a Unitarian writer. It is the expression of a faith that had endured many doubts and, at one time, seemed as though it would pass utterly away. This Memoir brings together all that is known of the life story of Mrs. Adams. Ministers and Teachers in Sunday Schools will do well to add it to the books already on their shelves; they will find it not only readable but useful as well.

Lindsey Press, 5 Essex Street, Strand, W.C. 2

YOUR CHILDREN'S EYESIGHT IS THEIR MOST VALUABLE POSSESSION.

If you have the slightest suspicion that your child is suffering in any degree from eye-strain, which may be indicated by headaches after a day at school, or by the child poring over a book with its head very close to the page, you should consult a qualified optician who will gladly offer you a candid opinion, and will most certainly not prescribe glasses unless absolutely necessary, after the most careful tests.

CECIL JONES, F.S.M.C., F.B.O.A., F.I.O. (London).

Is fully qualified to offer every service for the eyes at his sight-testing rooms, both at

26, Great Darkgate Street, Aberystwyth (Telephone 209)

And at JONES, JEWELLER, LLANDYSSUL.

:: Bradford House, Llandyssul ::

SPRING AND SUMMER 1928

Newest Goods in Ladies' Gent's and Children's Wear now in Stock.

E. LLOYD JONES.

A Complete Banking Service

The Midland Bank offers exceptional facilities for the transaction of banking business of every description through over 1960 branches covering all important agricultural, commercial, industrial and residential districts in England and Wales.

Deposit accounts may be opened in amounts of £1 and upwards, and interest is allowed at current rates.

The Branch at 9 Lincoln Street, Llandyssul, is open every week-day, from 10 a.m. to 12 noon on Saturday and from 10 a.m. to 3 p.m. on other days.

MIDLAND BANK

LIMITED

HEAD OFFICE: 5 THREADNEEDLE ST., LONDON, E.C. 2

Affiliations: Belfast Banking Co. Ltd., Northern Ireland; The Clydesdale Bank Ltd., and North of Scotland Bank Ltd., Scotland; Midland Bank Executor and Trustee Co. Ltd.